


Y Gymraeg Mewn Arfer Proffesiynol (ECAD6022-C) 2025-26



Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Darlith 12 ac 13
Dydd Iau, 29^{ain} o Ionawr 2026



Nod y ddarlith



- Codi medrau darllen yn y dosbarth.
- Y berthynas agos sydd rhwng y sgiliau iaith
- Defnyddio testun i godi safonau dysgwyr
- Addyseg – rhoi syniadau ar waith
- Trafod sut i gyfoethogi iaith y dysgwyr.

▪ Datblygu Sgiliau Darllen



Prifysgol Cymru
Y Ddrindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addfng i Gymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.




Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a'n cymell, gan ein helpu i ddysgu mwy am iaith a chyfathrebu.

Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, storiwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u credoau, diwylliannau a'u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda'i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

(Cwricwlwm i Gymru, 2020, 133)

Beth ydy'r sefyllfa bresennol?



“Dylai canlyniadau PISA fod yn agoriad llygaid i'r Llywodraeth Lafur”

Canlyniadau'n dangos bod perfformiad Cymru wedi gostwng i'r lefel isaf erioed mewn profion Mathemateg, Darllen a Gwyddoniaeth



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGOR iaith

www.athrofa.cymru



YSTADEGAU DOFENNUN

Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd: o 2018/19 i 2022/23

Adroddiad ar batrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd, gan ddefnyddio data lefel genedlaethol o'r asesiadau personol.

Cyhoeddiad gyntaf: 23 Tachwedd 2023

Ddiweddariad diwethaf: 23 Tachwedd 2023


Cofnod y ddogfen hon ei lwytho'n ôl i LLYW CYMRU, eiddad nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Eiddad: <https://www.gov.wales/patrymau-cyrhaeddiad-mewn-darllen-a-rhifedd-o-2018-19-i-2022-23.html>

Wedi'i fersiwn diweddarad

Gyhoeddiad yn lewidiad

Ffigur 2: Darllen Cymraeg: y gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad yn 2021/22 a 2022/23 o'i gymharu â 2020/21, mewn misoedd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Geiriau Jeremy Miles AS, Gwenidog y Gymraeg ac Addysg

(Datganiad Cabinet, 29
Tachwedd 2023)

Er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu fel cenedl yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwy'n falch o'r ffordd y mae ein proffesiwn dysgu wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn llwyddiant.

Mae'n hanfodol, wrth i ni ymdrechu tuag at gyrraedd safonau a dyheadau uchel ar gyfer ein holl ddysgwyr, ein bod ni'n cadw ein ffocws ar wella llythrennedd a rhifedd. Cyn y pandemig, diolch i waith caled ein gweithlu addysgu, roedd Cymru wedi gwneud cynnydd o ran codi safonau llythrennedd a rhifedd. Ond mae Estyn wedi codi pryderon sylweddol am effaith y pandemig ar safonau ysgolion. Adlewyrchwyd hyn yn yr **adroddiad a gyhoeddwyd gennym yr wythnos diwethaf ar batrymau lefel genedlaethol o ran cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd**, sy'n seiliedig ar asesiadau personol a gymerwyd gan bob dysgwr ym Mlwyddyn 2 i Flwyddyn 9.

Felly, mae angen ffocws cenedlaethol parhaus a chydgyssylltiedig arnom ar y sgiliau sylfaenol hyn i alluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael mynediad at ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm, a symud yn hyderus tuag at eu rhagolygon cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant hirdymor.

Os yw pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, am gael y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau i gyrraedd ei botensial, rhaid i lythrennedd a rhifedd barhau i fod yn flaenoriaeth genedlaethol.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAith

www.athrofa.cymru

Our education system has fundamentally changed.

I am yet to speak to a teacher who hasn't told me the difference they are seeing since the pandemic.

Geiriau Jeremy Miles
AS,

Gwenidog y

Gymraeg ac Addysg

(TES, Tachwedd 2023)

Too many teachers tell me they are seeing challenging behaviour, worse attendance and lower levels of literacy and numeracy. We must not allow this to become the “new normal”.

Geiriau Jeremy Miles (Tachwedd 2023):



Literacy and numeracy are foundational elements of learning. There is nothing more important. The richness of our new Curriculum for Wales can best be accessed by those with good literacy and numeracy.

Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd diweddaraf, yn ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth ddarparu addysg eang a chytbwys. Mae angen cefnogaeth glir ar ein pobl ifanc yn y meysydd llythrennedd a rhifedd o ystyried effaith barhaus y pandemig, i'w galluogi i fanteisio'n llawn ar yr hyn y mae'r cwricwlwm yn ei gynnig.



Y berthynas rhwng y sgil o ddarllen ac ysgrifennu

Mae perthynas agos rhwng darllen ac ysgrifennu ac mae cysylltiad agos rhwng hyfedredd person fel darllenwr a'i allu fel ysgrifennwr.

Pam cysylltu darllen ac ysgrifennu?

Am mai dwy wedd ar yr un peth ydyn nhw. Mae darllen i ysgrifennu fel y mae gwrando i siarad.

Trwy gyflwyno testunau safonol ac amrywiol, (gan gynnwys enghreifftiau o waith y dysgwyr) fel modelau o ysgrifennu effeithiol, a'u cyd-ddarllen, gellir datblygu'r ysgrifenyddwyr gwan ac ymestyn yr ysgrifenyddwyr hyderus.

Wrth gyflwyno testunau gweladwy i bawb, gellir tynnu sylw at nodweddion arbennig er mwyn datblygu gallu'r plant i ysgrifennu. Gellir cynyddu a chyfoethogi geirfa, brawddegau, a syniadau creadigol y plant.

<http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/cynnal/Athrawon/canllawiau/cyd-ddar.htm#Darllen%20ac%20Ysgrifennu>




Pa mor dda yw sgiliau darllen pobl ifanc 15 oed yng Nghymru?

Sgoriau PISA Cymru

PISA 2022

Mathemateg




Darllen



Gwyddoniaeth



Sgorau Cymru 2006-2022



— Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru,  Adroddiadau PISA cenedlaethol,
(fersiynau sawl blwyddyn)

<https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/sut-wnaeth-cymru-berfformio-yn-pisa-2022/>

'Darllen

- 466 oedd y sgôr gyfartalog yng Nghymru o ran darllen ar gyfer PISA yn 2022. Roedd hyn yn sylweddol is na sgôr gyfartalog yr OECD, sef 476.
- Cyflawnodd dysgwyr yn 45 o'r systemau addysg a gymerodd ran sgôr ddarllen gyfartalog a oedd yn sylweddol is na Chymru, o gymharu â 27 a gyflawnodd sgôr darllen gyfartalog a oedd yn sylweddol uwch na Chymru.
- Roedd sgôr gyfartalog Cymru o ran darllen yn sylweddol is na'r sgôr gyfartalog yn 2018 (483). Roedd cyfartaledd yr OECD hefyd yn sylweddol is yn 2022 (477) nag yn 2018 (488).

<https://www.llyw.cymru/cyflawniad-disgyblion-15-mlwydd-oed-rhaglen-ryngwladol-asesu-myfyrwyr-pisa-adroddiad-cenedlaethol-2022>




Prifysgol Cymru
Y Ddrindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding Learning | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

'Sgiliau darllen wedi dioddef oherwydd y pandemig'



<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/saf/65480574>



Prifysgol Cymru
Y Ddrindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Gymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Estyn yn amlygu pwysigrwydd darllen Cymraeg ar draws y cwricwlwm wrth i effaith negyddol y pandemig effeithio ar safonau o hyd

<https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2024/09/Datblygu-Medrau-Darllen-Cymraeg-Disgyblion-10-14-oed.pdf>



estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

Datblygu Medrau Darllen Cymraeg
Disgyblion 10-14 oed
Medi 2024



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru



Datblygu Medrau Darllen Cymraeg Disgyblion 10-14 oed

Medi 2024

Argymhellion

Dylai arweinwyr mewn ysgolion ystyried:

- Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth o fedrau darllen, gan gynnwys uwch-fedrau darllen, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn ogystal â'r Gymraeg
- Defnyddio ystod eang o wybodaeth o amrywiaeth o weithgareddau hunanwerthuso i fonitro a gwerthuso medrau darllen disgyblion er mwyn adnabod yn glir pa agweddau o ddarllen sydd angen eu gwella neu'u cryfhau
- Cynllunio'n strategol a strwythuro cyfleoedd i gynyddu awydd, dygnwch a hyder disgyblion pan yn darllen yn y Gymraeg

Dylai awdurdodau lleol ystyried:

- Hwyluso trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a goresgyn unrhyw rwstrau i sicrhau bod ysgolion yn gallu cydweithio'n fuddiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- Creu cyfleoedd i awduron Cymraeg ymgysylltu ag ysgolion a siarad â disgyblion am y math o lyfrau yr hoffent eu darllen yn y Gymraeg
- Gweithio gyda phartneriaid fel 'Adnodd' i wella a chynyddu'r adnoddau darllen cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gan gynnwys llyfrau ffeithiol

Strategaethau i godi safonau darllen yn y dosbarth



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Gymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Strategaethau darllen



Defnyddio'r
lluniau
i gael cliw.



Dweud synau'r
llythrennau
a'u clymu.



Chwilio am eiriau
bach sy'n cuddio
yn y geiriau
mawr.



Torri'r gair i
sillafau.



Defnyddio'r
atalnodi i helpu
darllen yn
ystyrlon.



Ail-ddarllen os
nad ydych yn
deall.



Darllen ymlaen i
geisio gwneud
synnwyr o'r gair.



Gwrando ar y
geiriau wrth i chi
eu darllen.



Edrych i weld os
yw'r gair yn
debyg i un arall yr
ydych yn ei
wybod.



Dychmygu beth
sy'n digwydd.



Gofyn cwestiwn a
fydd yn helpu os
nad ydych yn
deall.



Adnabod eich
camgymeriadau
a'u cywiro.

Tric a Chlic

Pecyn addysg Tric a Chlic
Cynllun ffoneg synthetig, systematig a
dilyniadol i'r Cyfnod Sylfaen
Cynllun sy'n:

- addysgu sain a ffurf llythrennau
- addysgu strategaethau adeiladu i ddarllen a thorri geiriau i sillafu
- annog rhuglder a mynegiant wrth ddarllen o'r dechrau un
- cynnig dulliau addysgu rhyngweithiol
- atgyfnerthu'r camau yn rheolaidd
- symud yn gyflym o un cam i'r llall





Croeso i wefan Tric a Chlic!

Dyma gartref newydd Tric a Chlic!

Yma gallwch ddarganfod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am raglen Tric a Chlic. Dewch i ddeall mwy am gynnwys y rhaglen, sut i gynnig cefnogaeth, neu dewch i bori drwy'r llw o syniadau ac adnoddau deniadol a lliwgar sydd ar eich cyfer. Os ydych chi'n rhiant neu'n ofalwr sydd yn newydd i'r rhaglen neu'n ysgol sydd yn defnyddio'r rhaglen gyda'ch dysgwyr yna mae'r wefan hon yn cynnig cefnogaeth i chi!

<https://tricachlic.cymru/adnoddau/>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding | Cymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Darllen yn y dosbarth



Darllen ar y cyd.

Darllen mewn parau.

Darllen dan arweiniad.

Cyfleoedd i drafod /
rhagdybio.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Gymru | Education for Wales


RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Adroddiad Estyn: Caffael yr iaith Gymraeg

Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr

Estyn, Mawrth 2021: Caffael yr iaith Gymraeg



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Caffael yr iaith Gymraeg

Lle mae'r addysgu'n gyson dda neu'n well, mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar drafod testunau gyda dysgwyr yn fanwl drwy brofiadau darllen ar y cyd â llyfrau lluniau, 'llyfrau mawr' neu destun ar sgrin. Mae ymarferwyr yn yr ysgolion hyn yn datblygu medrau datgodio, dealltwriaeth lythrennol, crynhoi a dod i gasgliad, ad drefnu, gwerthuso a gwerthfawrogi o oed cynnar.


Tud. 92



Caffael yr iaith Gymraeg

Argymhellion:

Dylai ysgolion cynradd gynnig cyfleoedd i ddysgwyr wrando ar, darllen a gwerthfawrogi llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg gan awduron o Gymru, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Caffael yr iaith Gymraeg

Lle mae'r addysgu'n gyson dda neu'n well, mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar drafod testunau gyda dysgwyr yn fanwl drwy brofiadau darllen ar y cyd â llyfrau lluniau, 'llyfrau mawr' neu destun ar sgrin. Mae ymarferwyr yn yr ysgolion hyn yn datblygu medrau datgodio, dealltwriaeth lythrennol, crynhoi a dod i gasgliad, ad drefnu, gwerthuso a gwerthfawrogi o oed cynnar.

Tud. 92






Dwyn i gof



Hunanfonitro




Delweddu



Cwestiynu

Yr Wyth Ymddygiad Darllen




Dadansoddi a
Chysylltu



Dadansoddi a
Darllen Rhwng y
Llinellau



Dadansoddi a
Gwerthuso



Dadansoddi a
Chrynhoi

Tasg – yn eich grwpiau



Ys gwn i....?

Teitl y darn darllen:

Awdur:



Cyn darllen

Ar ôl darllen

Mwy na
thebyg yn
wir

Mwy na thebyg
yn anghywir

Gosodiad

Gwir

Gau. Ail ysgrifennwch y gosodiad yn gywir

1.

2.

3.

4.

5.

6.

7.

8

Anodi – Darn darllen

Darllenwch y detholiad
yn ofalus. Labelwch y
canlynol:

Rhannau Ymadrodd
Nodweddion
Gramadegol

*Her –nodwch hefyd y
rhesymau gramadegol.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Gymraeg Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru



Asesiadau Personol Cenedlaethol ar Gyfer Darllen a Rhifedd

Mae asesiadau personol Darllen a Rhifedd i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 yn statudol ac ar gael i'w gwneud drwy gydol y flwyddyn ysgol. Nod yr asesiadau yw cefnogi cynnydd mewn sgiliau darllen a rhifedd.

Diben asesiadau personol

Mae asesiadau ar-lein mewn **darllen** a **rhifedd** wedi'u cynllunio i helpu athrawon a dysgwyr ddeall sut mae sgiliau darllen a rhifedd dysgwr yn datblygu a chynllunio'r camau nesaf. Eu bwriad yw cefnogi dysgu ac addysgu fel rhan o drefniadau asesu ehangach ysgolion o dan y Cwricwlwm i Gymru.

<https://hwb.gov.wales>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Tasg

Asesu dealltwriaeth.

Lluniwch gwestiynau addas i gyd-fynd gyda'r darn ddarllen.

Cŵn sy'n helpu pobl

Mae rhai cŵn yn cael eu hyfforddi i helpu pobl. Mae'n costio tua £50,000 i hyfforddi un ci. Mae'r cŵn dechrau dysgu yn ifanc iawn. Pan fydd y cŵn barod mae'n mynd i fyw gyda'r person sydd angen help. Mae'r cŵn mwynhau helpu'r person ac mae'r perchennog yn dibynnu ar y ci yn fawr iawn.

Cŵn clywed

Mae'r ci clywed yn cyffwrdd y person a'i bawen pan fydd yn clywed sŵn. Bob bore mae'r cŵn clywed y cloc lawm ac yn deffro'r person. Os bydd tân yn y tŷ a'r cŵn clywed lawm mwg, mae'n gorwedd o flaen y person i ddangos bod perygl. Pan fydd cloch y drws yn canu, mae'r cŵn arwain ei berchennog i'r drws.

Cŵn tywys

Mae cŵn tywys yn helpu pobl sy'n methu gweld o gwbl, neu bobl sy'n cael problem gweld, i deithio'n ddiogel. Mae'r cŵn yn dysgu sut i arwain y person o gwmpas pethau. Mae'r cŵn cerdded yn dawel wrth ochr y person. Yn y dref, mae'r cŵn aros ar ochr y ffordd tan y bydd hi'n ddiogel i groesi.

Stori wir

Ci John Fletcher, 34 oed, ydy Tammy. Mae hi'n dair oed. Mae Tammy a John yn byw yn America. Mae clefyd siwgr ar John. Mae Tammy yn gwybod pan fydd lefel siwgr John yn isel. Mae Tammy yn gwneud sŵn ac yn prodo John. Rhaid i John wneud prawf wedyn i weld beth sy'n bod ar lefel y siwgr. Ond mae Tammy bob amser yn iawn.

Ci clyfar iawn ydy Tammy. Un diwrnod, roedd John yn sâl iawn. Roedd o'n gorwedd ar y llawr. Roedd ei lygaid ar gau a doedd o ddim yn gallu siarad. Felly, dyma Tammy yn defnyddio'r ffôn i gael help. Ond sut? Dydy ci ddim yn gallu ffonio! Roedd John wedi dysgu Tammy i wasgu 911 gyda'i thrwyn. Dyna'r rhif mae'n rhaid ei ffonio er mwyn galw ambiwlans yn America. Roedd Tammy wedi achub bywyd John ac felly cafodd hi wobwr arbennig. Gwobr am ddefnyddio ffôn symudol i achub bywyd neu helpu person ydy hi. A pherchennog balch iawn ydy John!



Y pedwar sgil



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addying i Gymraeg | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Jeremy Miles AS

Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Llafaredd a Darllen Plant
16^{eg} Tachwedd 2021

'Mae sgiliau siarad, gwrando a darllen yn hanfodol i bron â bod pob agwedd ar ein bywydau, o'r cartref i'r ysgol ac i fyd gwaith. Yn ogystal â bod wrth wraidd gallu cael mynediad at ddysgu, maen nhw hefyd yn galluogi datblygu perthynas â rhieni, â chyfoedion a chymunedau ehangach, ac yn gallu agor drysau i siarad am bynciau anodd, sy'n fuddiol i'n hiechyd meddwl a'n lles. Dyma pam mae gwella sgiliau darllen a helpu i gyffroi angerdd dros ddarllen yn ein hysgolion yn flaenoriaeth lwyr'.

<https://cofnod.senedd.cymru>

Sut mae datblygu sgiliau darllen a gwrando yn y dosbarth?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Cymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Sut mae datblygu sgiliau darllen a gwrando yn y dosbarth?

Gwrando ar stori

Ail drefnu
brawddegau

Cardiau Darllen
Cadwyn

Gwrando a llenwi
bylchau

Ffeithiau partner A /
Partner B



<https://soundcloud.com/bookstart-dechrau-da>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding | Cymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Defnyddio testun fel sbardun ar draws y cwricwlwm.

Meysydd dysgu a phrofiad



Y Celfyddydau Mynegiannol



Iechyd a Lles



Y Dyniaethau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mathemateg a Rhifedd



Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Gellir defnyddio llyfrau i gynllunio gweithgareddau addas ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad. Cofiwch hefyd gynllunio ffocws iaith i bob gweithgaredd.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Cymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru


Rhai syniadau ...



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



seren	unig	gofynnodd	atebodd
Dewin	Doeth	mêl	bechod
gwyllo	seren	flasmus	galwodd
dechrau	chwyrnu	edrychodd	taflodd
ffenest	disgleirio	clywodd	Daeth
sniffian	Teimlodd	ddafnau	yn gynnes
disgyn	chalon	atebodd	gwely



sniff

gwyl

ffen

ser

est


ian

ig

io

un

en



Urdd Gobaith Cymru

A wyddoch chi ...



Ffaith!

Urdd Gobaith Cymru Ffach oedd enw gwreiddiol y mudlad.

* Cafodd yr Urdd ei ffurfio yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards, ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

* Dyma **addedd** yr Urdd:

*Byddaf ffyddlon i Gymru a theilwng ohoni;
I gyd-ddyn, pwy bynnag y bo;
I Grist a'i gariad ef.*

* Draig goch gyda'r geiriau 'Yr Urdd - Er Mwyn Cymru' oedd y bathodyn cyntaf.

* Yna daeth siâp triongl, yn cynnwys tri lliw:
* gwyrdd - Cymru
* coch - cyd-ddyn
* gwyn - Crist

* Roedd enwau milwrol ar y swyddogion cynnar. Roedd yn rhaid casglu aelodau er mwyn bod yn swyddog.

- * Is-gapten - 6 aelod
- * Capten - 12 aelod
- * Rhingyll - 24 aelod
- * Cadfridog - 50 aelod

C+A

CWESTIWN: Ble agorodd adran gyntaf yr Urdd?
ATEB: Treuddyn, Sir y Fflint.

* Gwisg swyddogol y merched yn y 1930au oedd het, sgert a chot werdd; pluen goch yn yr het, a thei coch a gwyrd.

* Mae gan yr Urdd **Ymdeithgan**:

*Dathlwn glod ein cyndadau,
Enwog gewri Cymru fu ...*


* Yn 2010 roedd 48,526 o aelodau mewn 1,200 cangen.

* Roedd Ioan Gruffudd, Alex Jones a Dewi Pws yn arfer bod yn aelodau!



Geirfa

addedd: math arbennig o addewid
rhingyll: y swyddog uchaf ond un
cadfridog: swyddog uchel iawn
ymdeithgan: cân sy'n cael ei chanu wrth i bobl gerdded gyda'i gilydd




Sir Ifan ab Owen Edwards



Sir Ifan ab Owen Edwards

A wyddoch chi am...

Sefydliadau Cymru?



Caerdydd
Caerdydd
Caerdydd

A wyddoch chi ...

Ffaith!

Mae 1,000,000 (miliwn) o bobl yn swlio'r Eisteddfod ar y teledu!

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

- * Yng Nghorwen y cafodd yr Eisteddfod gyntaf ei chynnal, yn 1929.
- * Erbyn heddiw, dyma wyl ieuencid fwyaf Ewrop!
- * Mae 40,000 yn cystadlu yn y rowndiau cylch a sir ...
- * ... a 14,000 yn genedlaethol - mwy nag yn y Gêmau Olympaidd!
- * Cafodd yr Eisteddfod mo'i chynnal yn 2001 oherwydd clwy'r traed a'r genau.



Gwyl Llangrannog



Canolfan y Mileniwm

Gwersylloedd

- * Roedd y bechgyn yn y gwersyll cyntaf yn Llanuwchllyn yn 1928 yn ymolchi yn afon Twrch ac yn coginio mewn crochan dros dân agored!
- * Yng ngwersylloedd cyntaf Llangrannog roedd y merched yn cysgu mewn cabanau pren, a'r bechgyn mewn pebyll!
- * Yn 1950 agorodd gwersyll Glan-Ilyn ar Lyn Tegid, y Bala.
- * Y **Brenin Arthur** yw enw cwch y gwersyll.
- * Ers 2004 mae gwersyll dinesig yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd.
- * Gwersyll Pentre Ifan yn Sir Benfro yw'r un diweddaraf.



Cylchgronau

- * Mae 28,000 o blant yn darllen y cylchgronau hyn:
- * **Cip** i blant cynradd
- * **Bore da** i ddysgwyr cynradd
- * **Iaw!** i ddysgwyr uwchradd



C+A

CWESTIWN: Beth yw ystyr 'Jerir' a 'Swogs' yn iaith y gwersyllwyr?
ATEB: Toiled a swyddogion!

Chwaraeon

- * Cymerodd 4,000 o aelodau ran yn y Mabolgampau cyntaf yn Llanelli, 1932.
- * Erbyn hyn mae 40,000 yn cystadlu, er enghraifft:
- * 152 tîm rygbi
- * 130 tîm pêl-rwyd

Mistar Urdd

- * Cafodd Mistar Urdd ei ddyfeisio yn y 1970au.



Hei, Mistar Urdd, yn dy goch, gwyn a gwyrdd.
Mae hwy! i gael ynn mhobman yn dy gwmi.
Hei, Mistar Urdd, tyrd am dro ar hyd y ffordd -
Cawn ganu'n cân i holl ieuencid Cymru.

www.urdd.org

gwreiddiol

ieuenctid

adduned

gŵyl

swyddogol


gwersylloedd

milwrol

dinesig

ymdeithgan

cylchgronau



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Tsimpansi



Ffeil ffeithiau	
Byw:	[redacted]
Cynefin:	Fforestydd fel arfer ond mae rhai'n byw ar diroedd glaswellt
Bwyt:	[redacted] planhigion, pryfed, wyau ac weithiau cig
Corff:	Tua [redacted]

Clyfar!

Mae tsimpansiad yn gallu gwneud a defnyddio offer. Maen nhw'n defnyddio darnau o [redacted] i dwrio am bryfed ac maen nhw'n defnyddio cerrig i dorri cnau.

Dewch yma, bryfed bach.



Maen nhw'n gallu [redacted] â'i gilydd drwy wneud synau arbennig. Maen nhw'n gallu 'siarad' â phobl drwy wneud arwyddion arbennig.

Maen nhw'n gallu dysgu pethau [redacted]



Elusennau'n achub

Ambiwlans Awyr Cymru



● Cafodd Ambiwlans Awyr Cymru ei lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi 2001.

● Ar ôl derbyn galwad, mae'r Ambiwlans Awyr yn medru bod yn yr awyr o fewn tair munud.

● Mae'r Ambiwlans Awyr yn medru teithio ar gyflymder o 241km yr awr (150 milltir yr awr).

● Elusen yw Ambiwlans Awyr Cymru. Nid yw'n derbyn ceiniog wrth y Llywodraeth. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar gyfraniadau ariannol wrth y cyhoedd.

● Nod yr Ambiwlans Awyr yw cyrraedd, trin y claf a'i gludo i'r ysbyty mor gyflym ag sy'n bosibl.

● Mae'n medru cyrraedd unrhyw le yng Nghymru mewn 20 munud.

FFAITH

Mae gan yr Ambiwlans Awyr bedwar hofrennydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

RNLI



Elusen yw'r RNLI (*Royal National Lifeboat Institution*) hefyd. Mae'n bodoli ers 1824. Ei nod yw achub bywydau ar y môr. Mae gan yr elusen 350 o fadau achub. Mae'r RNLI yn cynnig gwasanaeth 24 awr y dydd ar hyd arfordir Cymru, Lloegr, Gweriniaeth Iwerddon a'r Alban. Mae'n

ddibynnu ar 40,000 o wirfoddolwyr. Mae pobl yn gwirfoddoli drwy fod ar y bad achub, mewn gorsafoedd, ar y traeth neu'n codi arian.

Ar y traeth

Mae'n debyg bydd un o bob tri pherson yn treulio o leiaf un diwrnod ar y traeth yn ystod yr haf. Mae Achubwyr Bywyd yr RNLI yn ceisio gwneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel ar ein traethau. Maen nhw'n heini ac yn gryf. Maen nhw wedi cael eu hyfforddi i achub bywyd. Er mwyn bod yn Achubwr Bywyd mae'n rhaid gallu:

- nofio 200m mewn llai na tair munud a hanner;
- rhedeg 200m ar y tywod mewn llai na 40 eiliad.



Dyma'r ardal ar y traeth lle mae'r Achubwyr Bywyd yn gwylio. Dyma'r lle mwyaf diogel i nofio, mynd ar fwrdd neu adefnuddio dingi.




Dyma'r ardal ar gyfer syrffio, mynd mewn coliac neu unrhyw raffit arall heb injan. Does dim hawl nofio yn yr ardal hon.



Perygl!
Peidiwch â mynd i mewn i'r dŵr ar unrhyw adeg pan fo'r faner goch yn hedfan.



Mae'n dangos cryfder y gwynt. Peidiwch â defnyddio dingis pan fo'r faner hon yn hedfan.



Ambiwlans Awyr Cymru

RNLI

Aroleuo



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Pecyn Posau Mathemateg


3

Nod: Defnyddio ffeithiau rhif cyfarwydd


Enw'r pos hwn yw
Arithmagon.

Edrychwch ar y rhifau
yn y cylchoedd.

Sut maen nhw'n
cysylltu gyda'r rhifau
yn y sgwariau?



Rhowch gynnig ar orffen y ddau Arithmagon hyn:




© Peniarth, 2022

LILI


Her:

Mewn Arithmagon arferol rhaid cyfrifo pa rifau
sydd yn y cylchoedd, nid y sgwariau.

Mae hyn yn fwy o her. Rhowch gynnig arni:



Dyma Arithmagon gwag. Rhowch
gynnig ar greu pos Arithmagon.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Nod: Darllen cloc digidol 24 awr

36

Pryd mae Hal yn mynd i'r gwely?

Dyma 3 chliw i chi:

- Mae gen i gloc 24 awr.
- Rwy'n mynd i'r gwely ar ôl hanner awr wedi wyth y nos ond cyn hanner awr wedi naw o'r gloch.
- Mae'r digid 1 mewn **un** man ar y cloc pan fydda i'n mynd i'r gwely.



Pa amserau posib mae Hal yn mynd i'r gwely?

Tasai gyda chi gyfle i ofyn un cwestiwn i Hal er mwyn darganfod mwy am ei amser gwely, beth fydddech chi'n ei ofyn iddo?



© Peniarth, 2022



Her:

36

Meddyliwch am weithgaredd rydych chi'n ei wneud.

Faint o'r gloch mae'r gweithgaredd yn digwydd ar gloc 24 awr?

Lluniwch gliwiau fel rhai Hal er mwyn i bobl eraill yn eich dosbarth geisio dyfalu'r amser.

Blwch syniadau



© Peniarth, 2022



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Tywydd a Hinsawdd

A wyddoch chi ...




Gir Benfro

Tymheredd


- * Y tymheredd isaf erioed a fesurwyd yng Nghymru oedd -23.3°C yn Rhaeadr, Powys yn 1940.

- * Y tymheredd uchaf erioed a fesurwyd yng Nghymru oedd 35.2°C ym Mhenarlâg, Sir y Fflint yn 1990.
- * Mae arfordir Sir Benfro yn cael dros 1,700 awr o heulwen y flwyddyn.
- * Ond dim ond 1,200 o oriau o heulwen y flwyddyn mae ardaloedd mynyddig yn ei gael.



Ffaith!

Ar sepalr Wyloddfa, mae'r tywydd yn gallu bod yn 30°C yn yr haf, ond yn -20°C yn y gaeaf.



Stormydd

- * Mae taranau'n digwydd yng Nghaerdydd ar 11 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd.
- * Ond yng ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru, ar tua wyth niwrnod y flwyddyn mae'n digwydd.
- * Mae hi'n bwrw eira neu eirlaw ar dros 40 niwrnod yn Eryri...
- * ...ond ar lai na 10 diwrnod ar arfordir y de-orllewin.

C+A

CWESTIWN: Pa ardal yw'r fwyaf gwyntog yng Nghymru?

ATEB: De-orllewin Sir Benfro, gyda 30 niwrnod o wyntoedd cryf y flwyddyn ar gyfartaledd.

- * Y gwynt cryfaf erioed ar dir isel yng Nghymru oedd gwynt o 108 **not** yn y Rhws (Bro Morgannwg) ar 28 Hydref 1989.

Geirfa

hinsawdd: y math o dywydd sydd i'w gael yn rhywle ar adegau gwahanol o'r flwyddyn

not: mesur o gyflymdra



A wyddoch chi ...

Glaw

- * Ar yr arfordir, ac yn agos i'r ffin â Lloegr, mae llai na 1000 milimetr o law y flwyddyn.
- * Yn Hydref 1987, cwmpodd 100 milimetr o law mewn 36 awr yng ngorllewin a gogledd Cymru!
- * Cafwyd **llifogydd** mawr a boddwyd pedwar person.




- * Digwyddodd **llifogydd** mawr ar hyd arfordir Cymru ar 30 Ionawr 1607.
- * Cododd ton fawr tua dau fetr o uchder fel tswami o'r môr a tharo'r arfordir o Dalacharn yn Sir Gaerfyrddin hyd at Gas-gwent.
- * Caerdydd oedd y dref a gafodd ei heffeithio fwyaf.

C+A

CWESTIWN: Pa un yw'r ardal wlypaf yng Nghymru?

ATEB: Eryri - gyda dros 3000 milimetr o law y flwyddyn.



Tywydd rhyfedd


- * Weithiau mae tywod o'r Sahara'n cael ei gario ar y gwynt i Gymru.
- * Ar 18 Awst 2004, cwmpodd pysgod o'r awyr ar bentref Trefcyclo ym Mhowys!
- * Yn 1996, cwmpodd **dwsinau** o frogaod o'r awyr yn Llanddewibrefi!

Geirfa

ffin: linell rhwng dwy ardal neu wlad

llifogydd: llawer o ddŵr sy'n llifo dros dir sydd fel arfer yn sych

dwsin/dwsinau: grwpiau o ddeuddeg



Cwestiynau allweddol:

Beth oedd y tymheredd uchaf a fesurwyd yng Nghymru erioed?

Beth ddigwyddodd yn Hydref 1987?

Sawl diwrnod yn fwy o eira sydd yn flynyddol yn ardal Eryri o'i gymharu ag arfordir y de-orllewin?

Tywydd a Hinsawdd

A wyddoch chi ...



Ur Benfro

Ffaith!

Yn y ddalfa, mae'r tywydd yn gallu bod yn 30°C yn haf, ond yn -20°C yn y gaeaf.



C+A

CWESTIWN: Pa ardal yw'r fwyaf gwynnog yng Nghymru?

ATEB: De-orllewin Sir Benfro, gyda 30 niwrnod o wyntoedd cryf y flwyddyn ar gyfartaledd.

* Y gwynt cryfaf erioed ar dir isel yng Nghymru oedd gwynt o 108 nod y Rhws (Bro Morgannwg) ar 28 Hydref 1989.

Geirfa

hinsawdd: y math o dywydd sydd i'w gael yn rhywle ar adegau gwahanol o'r flwyddyn

not: mesur o gyflymdra

Tymheredd

- * Y tymheredd isaf erioed a'r tywydd yng Nghymru oedd -23.3°C yn y fhaeadr, Powys yn 1940.
- * Y tymheredd uchaf erioed a'r tywydd yng Nghymru oedd 35.2°C ym Mhenarlâg, Sir y Fenni yn 1931.
- * Mae arfordir Sir Benfro yn cael dros 1,700 awr o dywydd yn y flwyddyn.
- * Ond dim ond 1,200 o orau o heulwen y flwyddyn mae'n caelodd mynyddig yn ei gael.



Stormydd

- * Mae taranau'n digwydd yng Nghaerdydd ar 11 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd.
- * Ond yng ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru, ar tua wyth niwrnod y flwyddyn mae'n digwydd.
- * Mae hi'n bwrw eira neu eirlaw ar dros 40 niwrnod yn Ffynon Iddiw.
- * ...ond ar ynni na 10 diwrnod ar arfordir y de-orllewin.



A wyddoch chi ...

Glaw

- * Ar yr arfordir, ac yn agos i'r ffin â Lloegr, mae llai na 100 awr o law y flwyddyn.
- * Yn Hydref 1987, cwmpodd 100 milimetr o law yn un 36 awr yng ngorllewin a gogledd Cymru!
- * Cafwyd llifogydd mawr a boddwyd pedwar person.



- * Digwyddodd llifogydd mawr ar hyd arfordir Cymru ar 30 Ionawr 1607.
- * Cododd ton fawr tua dau fetr o uchder fel tswami o'r môr a tharo'r arfordir o Dalacharn yn Sir Gaerfyrddin hyd at Gasgwent.
- * Caerdydd oedd y dref a gafodd ei heffeithio fwyaf.

Tywydd rhyfedd

- * Weithiau mae tywod o'r Sahara'n cael ei gario ar y gwylt i Gymru.
- * Ar 10 Ionawr 1996, cwmpodd pysgod o'r awyr ar bentref Trefcyclo ym Mynydd-y-Bryn.
- * Yn 1996, cwmpodd awyrennau ffrogaod o'r awyr yn Llanddewibrefil!

Geirfa

ffin: linell rhwng dwy ardal neu wlad


llifogydd: llawer o ddŵr sy'n llifo dros dir sydd fel arfer yn sych

dwsin/dwsinau: grwpiau o ddeuddeg

C+A

CWESTIWN: Pa un yw'r ardal wlypaf yng Nghymru?

ATEB: Eryri - gyda dros 3000 milimetr o law y flwyddyn.



- Crynhowch y testun i 3 brawddeg.
- Crynhowch y 3 brawddeg i 3 gair.
- Crynhowch y 3 gair i 1 gair.



SOAR Y MYNYDD

Mae un adeilad arbennig yng Nghymru sy'n edrych yn adeilad unig. Mae'n cuddio ym Mynyddoedd yr Elenydd yng nghanolbarth Cymru ac mae'n hen iawn. Y dref agosaf ydy Tregaron yng Ngheredigion sydd tua 10 milltir i ffwrdd.

SOAR Y MYNYDD

Enw'r adeilad ydy Soar y Mynydd.

Capel ydy Soar y Mynydd, ond dydy'r adeilad ddim wir yn unig achos maen nhw'n cynnal **cyrddau** yno yn ystod misoedd yr haf o hyd.

Mae'n anodd agor y capel yn y gaeaf gan fod y ffyrdd yn cael eu cau gan eira yn aml.

Mae pobl yn dod o bell iawn i'r capel yn Soar y Mynydd. Os ewch chi yno yn ystod yr wythnos, byddwch chi'n gweld y lle yn hollol dawel ac ambell i aderyn yn hedfan o gwmpas.



Geiriau Gwych...

CWRDD / CYRDDAU

Gwasanaeth crefyddol mewn capel.

?

Mae rhan o'r adeilad yn hen gartref. Efallai mai dyma lle roedd y gofalwr yn arfer byw.

?

Beth ydych chi'n feddwl?

?

Mae tu mewn i'r adeilad yn syml, gydag **adnod** o'r Beibl wedi ei hysgrifennu'n fawr uwchben y **pulpud**, "Duw cariad yw." Mae'r lle yn hardd iawn, ac mae llawer o arlunwyr wedi tynnu ei lun.




Geiriau Gwych...

ADNOD / ADNODAU

Llinell neu ddam byr o'r Beibl.

PULPUD


Tu blaen y capel lle mae'r pregethwr yn sefyll i siarad gyda'r gynulleidfa.



?

Pa eiriau hoffech chi eu rhoi uwchben y pulpud?
Beth am i chi fynd ati i dynnu llun yr adeilad?

?



DEISEB

Geiriau Gwych...

Tŷ GWYN

Cartref Arlywydd Unol Daleithiau America.

Os ydy pobl eisiau newid rhywbeth yn y wlad, neu yn anghytuno gyda rhywbeth, un ffordd o wneud hynny ydy trefnu deiseb, a chael cymaint o bobl â phosib i roi eu henwau ar y ddeiseb honno.

Nôl yn y flwyddyn 1923, roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi dod i ben ac roedd grŵp o wledydd wedi dod at ei gilydd i geisio cael heddwch yn y byd.

Roedd merched Cymru wedi sylweddoli, er mwyn gwneud i hyn lwyddo, fod angen gwlad fel yr Unol Daleithiau i fod yn rhan o'r grŵp. Felly roedd menywod Cymru wedi trefnu deiseb.

Roedd yn ymdrech fawr, gyda dros 390,000 o fenywod Cymru yn arwyddo'r ddeiseb. Mae hynny'r un faint â llenwi Stadiwm y Principality 5 gwaith!




x5



7 MILLTIR

Mae'n debyg bod yr holl bapurau, pe bydden nhw'n cael eu rhoi at ei gilydd mewn rhes, yn ymestyn am 7 milltir! Roedd angen blwch arbennig i gasglu'r holl bapurau. Cyflwynodd y menywod y ddeiseb i Arlywydd Unol Daleithiau America, Calvin Coolidge.





Yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, Ceredigion, mae dyddiadur Annie Jane Hughes-Griffiths yn nodi'r hanes yn fanwl. Teithion nhw draw i America ar y llong RMS Cedric gyda'r blwch.

Aethon nhw i'r Tŷ Gwyn, i gwrdd â'r Arlywydd Coolidge. Dywedodd Coolidge wrthyn nhw fod un o'i gyndeidiau, Nathaniel Davies, yn dod o Gymru. Gofynnodd y gwragedd i'r Arlywydd am gadw'r blwch gyda'r holl enwau ar y ddeiseb yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington. Ond erbyn heddiw, mae'r blwch wedi dod yn ôl i Gymru.



Mae'n ddigon posib fod rhywun sy'n perthyn i chi wedi arwyddo'r ddeiseb nôl yn 1923, a bod ei henw yn dal ar y papur yn y blwch.





Beth ...?

Oes ...?

Ydy ...?

Faint ...?

Sawl ... ?

Pam ... ?





Pwy ...?

Ble ...?

Pa ...?

**Pa fath o
...?**

Wyt ti ... ?

**Ydych
chi... ?**




Ddysgaist ti air newydd?



O'r holl eiriau
ddarllenaist ti heddiw,
pa un ydy dy hoff un di?

Pam?





<https://youtu.be/juYo470lo6E?si=5hjaizNJTImQboqu>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Mae “darllen” yn fwy nag edrych ar air a gallu ei ddweud neu ei ysgrifennu. Mae “darllen” yn golygu “deall” a “dehongli”. Os na fyddwn i’n annog ein plant o oedran ifanc i ymdrechu i ddeall a dehongli’r byd, yna rydan ni’n cyfyngu eu dyfodol.

Anni Llyn, 2015

https://resource-centre-uploads.s3.amazonaws.com/uploads/barod_i_ddarllen1.pdf






Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru



...a llawer iawn mwy.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David













Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAITH










www.athrofa.cymru



Testunau ffeithiol ...







Testunau ffeithiol ...






Testunau ffeithiol ...



O dan dy draed
ac uwch dy ben
Byd natur



...a llawer
iawn mwy.



Cymer un cam bach ar d'antur dithau
Rhwng y cloriau hyn i fyd o eiriau.

Jones

Caryl Parry



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAith

www.athrofa.cymru

Blwyddyn Darllen
GENEDLAETHOL

Dos ar wib i fyd hud a lledrith,
Dyna'r unig fan lle cei di
Fynd ar ras i fyd o freuddwydion
A dianc i dir ffantasi.

Cymer un cam bach ar d'antur dithau
Rhwng y cloriau hyn i fyd o eiriau ...

Caryl Parry Jones
Bardd Plant Cymru 2007–2008

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon: Hyfedredd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Adding i Cymru / Education for Wales

RHAGORIAITH

www.athrofa.cymru

Fframwaith Cymwyseddau i Athrawon – Lefel Darllen

Hyfedredd	Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.	Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol. Defnyddio unrhyw nodiadau'n effeithiol iawn er mwyn llywio'r wers.
Uwch	Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Gallu darllen straeon yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	Darllen a dehongli testun ar goedd yn hyderus, trafod cynnwys a chyfeirio at dermau yn ddeallus. Defnyddio nodiadau'n effeithiol er mwyn llywio'r wers.



Sut mae cyfoethogi iaith y dysgwyr?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

RHAGORIAith

www.athrofa.cymru

Rhaid peidio â chyfieithu idiomau Saesneg! Mae idiomau unigryw gyda ni yn yr iaith Gymraeg.



What are idioms and why are they important to achieve fluency?

<https://www.digitalpolyglot.com/idioms-important-achieve-fluency/>

Llyfr Defnyddiol


Awdur: Alun Rhys Cownie

ISBN: 9780708316566

Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2012

Cyhoeddwr: Gwasg Prifysgol Cymru

Golygwyd gan Wyn G. Roberts



Cyfieithu idiomaau yn llythrennol...

Mae gan bob iaith ei hidiomaau neu ei hymadroddion idiomatig. Dyna'r pethau sy'n cyfrannu at naturioldeb yr iaith a'n rhuglder.

Yn eu hanfod, dydyn nhw ddim yn gallu cael eu cyfieithu'n llythrennol o un iaith i iaith arall.

Enghreifftiau:

rhai amserau ☹

yn cymryd drosodd ☹

cymryd rhan ☹

i gyd o'r gorau ☹

fel canlyniad ☹

weithiau; ambell waith ☺

yn fwy amlwg ☺

mynd ar / gwneud / mynychu ☺

cofion gorau; yr eiddoch yn gywir; yn gywir ☺

o ganlyniad ☺

<https://wordwall.net/resource/3199612>



Rhowch yr idiom cywir yn y bwlch.

1. Roedd llawysgrifen yr awdur _____a felly roedd yn anodd iawn i ddarllen y gerdd.
2. Bu Siwan wrthi _____yn adolygu at yr arholiadau.
3. Gan ei fod yn hwyr i'r apwyntiad, gyrrodd _____ar hyd y draffordd.
4. Mae'r rheolau gramadeg _____ar ôl iddo adolygu cyn gymaint.

fel traed brain hen law ar

fel lladd nadroedd

fel cath i gythral

ar flaenau'i fysedd

ar bigau'r drain

1. Roedd llawysgrifen yr awdur fel traed brain a felly roedd yn anodd iawn i ddarllen y gerdd.
2. Bu Siwan wrthi fel lladd nadroedd yn adolygu at yr arholiadau.
3. Gan ei fod yn hwyr i'r apwyntiad, gyrrodd fel cath i gythral ar hyd y draffordd.
4. Mae'r rheolau gramadeg ar flaenau'i fysedd ar ôl iddo adolygu cyn gymaint.

Tasg: Rhowch yr idiom cywir yn y bwlch.

1. Roedd Alaw yn _____ddoe ar ôl i Wil fod yn galw enwau arni.
2. Roedd Elin _____isio gwybod y gyfrinach.
3. Roedd Sion yn _____i baratoi yn drylwyr at yr arholiad.
4. Ga i _____i olchi'r llestri os gwelwch yn dda?

help llaw

hen law ar

bron â thorri ei fol

teimlo i'r byw

gwneud ei orau glas


ar bigau'r drain

1. Roedd Alaw yn teimlo i'r byw ddoe ar ôl i Wil fod yn galw enwau arni.
2. Roedd Elin bron â thorri ei bol isio gwybod y gyfrinach.
3. Roedd Sion yn gwneud ei orau glas i baratoi yn drylwyr at yr arholiad.
4. Ga i help llaw i olchi'r llestri os gwelwch yn dda?





<https://wordwall.net/resource/7569547>

Idiomau mewn 'emojis' 😊



Idiomau

1.    Yn wên o glust i glust
2.   Y drwg yn y caws
3.    Traed moch
4.   Cannwyll fy llygad
5.   Diwrnod i'r brenin
6.   Gwneud môr a mynydd
7.    Rhoi'r ffidl yn y to
8.   Codi calon
9.    Taro'r hoelen ar ei phen
10.    Daw eto haul ar fryn
11.   Gwynt yn ei ddwrn
12.    Bwrw hen wragedd a ffyn





Daliwch ati!